# Polisi Tynnu Lluniau Ysgol

**Ysgol Llanbedrog**

**Dyddiad Cymeradwyo:** 21/2/19

**Dyddiad Adolygu:** Tymor y Gwanwyn (bob 3 blynedd)

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** *Gwenllian Hughes*

**Dyddiad:** 12/5/25

## 1. Cefndir

1.1 Mae datblygiadau technolegol yn ei gwneud hi'n llawer haws defnyddio lluniau a delweddau mewn print ac ar y we. Yn sgil hyn, daw'r cyfrifoldeb i sicrhau nad yw plant yn cael eu hecsbloetio.

1.2 Mae hwn yn faes cymhleth iawn a bwriad y polisi hwn yw cynorthwyo ysgolion i ymdrin â sefyllfaoedd lle mae ffotograffiaeth/ffilmio'n digwydd

1.3 Cyhoeddir y polisi hwn i geisio sicrhau na fydd staff yr ysgol, athrawon a chymorthyddion yn rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle gallent gael eu herlyn am gamddefnyddio lluniau, osgoi sefyllfaoedd lle mae diogelwch plant yn cael ei roi yn y fantol a'u helpu i lynu at reolau diogelu data.

1.4 Mae'r polisi hwn yn gwahaniaethu rhwng tynnu lluniau "*preifat*", sef lluniau a dynnir gan rieni a theulu agos, lluniau at "*ddibenion addysgiadol*" o ddigwyddiadau ysgol a gymerir gan yr ysgol, a arddangosir yn yr ysgol a lluniau "*cyhoeddus*", sef lluniau a fyddai'n cael eu cyhoeddi yn y wasg, mewn cyhoeddiadau, ar wefan yr ysgol ac/neu ar safleoedd rhyngweithio cymdeithasol.

1.5 Mae'r term "lluniau" yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ffotograffiaeth (ffilm a digidol), fideo a chamerâu ffôn symudol.

## 2. Lluniau "Preifat"

**Lluniau / fideos "preifat" a dynnir gan rieni ac mewn sefyllfaoedd lle mae'r cyhoedd yn bresennol:** e.e. cyngherddau, sioeau a digwyddiadau chwaraeon yr ysgol.

2.1 Mae lluniau a dynnir er dibenion personol yn unig wedi'u heithrio o Ddeddfwriaeth Diogelu Data (h.y. y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018). Yr ysgolion eu hunain sy'n gyfrifol am sefydlu trefniadau ar gyfer lluniau o'r math hwn, a phenderfynu beth sy'n ymarferol ac yn addas ar gyfer amgylchiadau lleol a dylent hefyd ddatblygu canllawiau ar gyfer gwasanaethau penodol yn nodi trefniadau gweithredu.

## 3. "Dibenion Addysgiadol"

**Lluniau / fideos er "dibenion addysgiadol":** e.e. disgyblion wrth eu gwaith, llun ysgol, disgyblion ar drip, cymryd rhan mewn cystadlaethau.

3.1 Gall lluniau a dynnir er defnydd ysgol swyddogol fod wedi'u cynnwys dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data a dylid rhoi gwybod i ddisgyblion a myfyrwyr pam fod lluniau'n cael eu tynnu. Nid oes angen caniatâd ar gyfer tynnu llun o'r math hwn gan y bydd y prosesu wedi'i gynnwys dan sylfeini cyfreithiol eraill, fodd bynnag, dylid trin caniatâd i gyhoeddi y tu allan i'r ysgol yn yr un modd â lluniau "cyhoeddus".

## 4. Lluniau "Cyhoeddus"

**Lluniau/ fideos "cyhoeddus" i'w defnyddio y tu allan i'r ysgol:** e.e. llwyddiannau i'w nodi yn y papur lleol ac yn y wasg leol, gwybodaeth i'w chynnwys yn llawlyfr yr ysgol, cyfraniad at raglen deledu.

4.1 Defnyddir y term "cyhoeddus" ar gyfer lluniau i'r wasg, neu luniau er dibenion cyhoeddusrwydd e.e. lluniau ar wefannau a/neu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol y sefydliad

4.2 Mae'n hanfodol cael caniatâd gan y rhiant/gwarcheidwad cyn cyhoeddi, gan nodi'r dyddiad y cafwyd y caniatâd a chan bwy.

4.3 Felly, i osgoi sefyllfa lle mae'n rhaid cael caniatâd bob amser mae angen llun, dylid gwneud trefniadau lleol i sicrhau bod ffurflen ganiatâd sy'n gofyn am ganiatâd yn cael ei llofnodi a'i dyddio gan y rhiant/gwarcheidwad, gyda'r manylion yn cael eu cadw ar ffeil a chymal yn cael ei gynnwys yn llawlyfr yr ysgol fel rhan o'r datganiad preifatrwydd.

4.4 Dylid nodi'n glir ar y ffurflen lle y bydd y llun yn cael ei ddefnyddio, e.e. 'gwefan yr ysgol', 'tudalen Facebook/Twitter yr ysgol'. Nid yw dweud, "I'w defnyddio mewn cyhoeddiadau", yn ddigon.

4.5 Mae'r wasg bob amser yn awyddus i gynnwys enwau'r plant gyda'r lluniau - os na ddylid cynnwys enwau, dylai'r pennaeth egluro hynny i'r ffotograffydd/newyddiadurwr.

4.6 Rhaid cadw cofnod ar ffeil o unrhyw un sy'n gwrthwynebu i luniau o'u plant gael eu tynnu.

4.7 Nid oes yn rhaid glynu at yr uchod mewn perthynas â lluniau o bobl ifanc a dynnir o'r tu ôl iddynt, neu pan nad oes modd adnabod unigolion. Os oes unrhyw amheuaeth, mae'n well bod yn ofalus a gofyn am ganiatâd.

## 5. Defnyddio Lluniau

5.1 Unwaith y bydd caniatâd wedi'i gael a lluniau wedi'u tynnu, dylid eu dyddio a dylid sefydlu trefn ffeilio fel ei bod yn unol â'r cyfnodau cadw sydd wedi'u gosod.

5.2 Ni ddylid defnyddio lluniau y tu allan i'w cyd-destun, e.e. os oes llun wedi'i dynnu yn iard yr ysgol er mwyn tynnu sylw at gyfarpar newydd, yna ni ddylid defnyddio'r llun hwnnw mewn dogfen sy'n ymwneud â llwyddiannau'r ysgol; neu ailddefnyddio llun o blant yn y dosbarth mewn dogfen sy'n hyrwyddo darpariaethau AAA yr ysgol.

5.3 Wrth anfon llun i drydydd parti, rhaid nodi a chofnodi'n glir i ba ddiben y dylid defnyddio'r llun dan sylw.

## 6. Comisiynu Ffotograffwyr

6.1 Bydd y mwyafrif o ffotograffwyr y wasg a ffotograffwyr proffesiynol yn perthyn i gyrff proffesiynol, ac fel y cyfryw, bydd ganddynt gerdyn adnabod a bydd y rhan fwyaf wedi cael gwiriad DBS.

6.2 Dylai'r pennaeth gadw cofnod yn nodi pa bryd ac i ba ddiben y tynnwyd lluniau "cyhoeddus" gan ffotograffwyr proffesiynol, gan nodi'r wybodaeth a ganlyn:

- Enw, cyfeiriad cwmni a rhif ffôn cyswllt y ffotograffydd
- Manylion o'r cerdyn adnabod sydd gan y ffotograffydd
- Enwau'r unigolion yn y ffotograff
- Y caniatâd a dderbyniwyd - dyddiad a chan bwy
- Pam dynnwyd y llun a'r defnydd a wnaed ohono

6.3 Mae gan bapurau newydd eu rheoliadau eu hunain ynghylch sut a pha bryd y defnyddir lluniau o blant.

6.4 Fel rheol, y ffotograffydd sy'n cadw hawlfraint y llun. Mewn sefyllfaoedd hynod sensitif, gellid ystyried prynu'r hawlfraint honno.

6.5 Dylai pob ysgol weithredu system ffeilio lluniau sy'n nodi'r dyddiad pan dynnwyd y llun, lle y cafodd ei gymryd ac enwau unrhyw un sy'n ymddangos yn y llun.

**Os bydd sefyllfa'n codi lle mae'r pennaeth o'r farn ei bod yn amhriodol tynnu lluniau/fideos, bydd camerâu'n cael eu gwahardd o'r digwyddiad a bydd yr ysgol yn sicrhau na fydd y digwyddiad yn cael ei ffilmio oni bai bod person proffesiynol yn tynnu'r lluniau a'i fod wedi cael cliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddai'r lluniau/fideos ar werth i rieni/gwarcheidwad.**

**Atodiad 1:- Llythyr i Rieni**

## Tynnu Lluniau o Blant

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Yn ystod cyfnod eich plentyn yn yr ysgol, gallai nifer o sefyllfaoedd godi pan fo lluniau (lluniau neu fideos) yn cael eu tynnu. Mae Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofyniad statudol i ni sicrhau diogelwch y plant pan fo lluniau ysgol yn cael eu tynnu. Yn ogystal, rydym angen sicrhau ein bod yn dilyn gofynion deddfwriaeth diogelu data.

Mae'r wybodaeth a ganlyn yn egluro polisi'r ysgol ar dynnu lluniau a sut mae'r lluniau yn cael eu defnyddio mewn amgylchiadau amrywiol:

1. **Lluniau / fideos er "dibenion addysgiadol":** e.e. disgyblion wrth eu gwaith, llun ysgol, disgyblion ar drip, cymryd rhan mewn cystadleuthau.

    - Dim ond yn yr ysgol y bydd lluniau o'r fath yn cael eu harddangos - ar waliau, mewn arddangosfeydd ac mewn llyfrau sy'n cynnwys gwaith y disgyblion.
    - Mae'r llun ysgol unigol yn cael ei gysylltu i'r disgybl unigol drwy system electronig SIMS ac er dibenion adnabod yn unig y bydd yn cael ei ddefnyddio.
    - Dim ond yn yr ysgol y bydd llun grŵp ysgol mawr yn cael ei arddangos.
    - Dim ond yn yr ysgol y bydd fideo o'r fath yn cael ei harddangos.
    - Mae'r lluniau/fideos yn cael eu storio yn yr ysgol.

**<u>Ni fydd</u> yr ysgol yn gofyn am eich caniatâd i dynnu a defnyddio lluniau/fideos yn y categori hwn gan fod y defnydd a wneir ohonynt yn rhan o ddarpariaeth addysgiadol eich plentyn.**

2. **Lluniau/fideos "cyhoeddus" i'w defnyddio y tu allan i'r ysgol:** e.e. llwyddiannau i'w nodi yn y papur lleol ac yn y wasg leol, gwybodaeth i'w chynnwys yn llawlyfr yr ysgol, gwefan yr ysgol/safle rhwydweithio cymdeithasol yr ysgol, cyfraniad at raglen deledu.

    I ddiogelu disgyblion, bydd yr ysgol yn sicrhau:

    - Bod caniatâd rhieni/gwarcheidwad wedi'i dderbyn fel bod modd cyhoeddi lluniau/fideos yn y categori hwn
    - Bod rhieni/gwarcheidwad yn cael cyfle i wrthwynebu bod lluniau/fideos yn cael eu tynnu (bydd dymuniadau o'r fath yn cael eu cadw'n gyfrinachol)
    - Bod y lluniau/fideos yn cael eu storio yn yr ysgol.
    - Bod rhieni yn ymwybodol o'r cyfnodau cadw ar gyfer y math hwn o ddata
    - Bod rhieni'n cael gwybod, unwaith y bydd lluniau wedi'u cyhoeddi ar y rhyngrwyd, ei bod yn hynod anodd eu dileu'n llwyr.

3. **Lluniau/fideos "preifat" a dynnir gan rieni ac mewn sefyllfaoedd lle mae'r cyhoedd yn bresennol:** e.e. cyngherddau, sioeau a digwyddiadau chwaraeon yr ysgol.
    Fel bod modd i rieni/gwarcheidwad dynnu lluniau yn ystod y digwyddiadau uchod, bydd yr ysgol yn sicrhau:

    - bod rhieni yn cael gwybod ei bod yn debygol y bydd lluniau'n cael eu tynnu

- bod rhieni/gwarcheidwad yn cael gwybod nad yr ysgol fydd yn gyfrifol am unrhyw luniau "preifat" a dynnir gan fod lluniau preifat wedi'u heithrio o'r Ddeddf Diogelu Data
- y bydd y defnydd a wneir o gamerâu, ac o unrhyw ymddygiad annerbyniol, yn cael ei fonitro yn ystod y digwyddiad.

Gofynnir am ganiatâd ar ddechrau gyrfa ysgol y disgybl sydd newydd gychwyn yn yr ysgol. Gall y rhiant/gwarcheidwad dynnu ei ganiatâd i dynnu lluniau yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r pennaeth.

**Os bydd sefyllfa'n codi lle mae'r pennaeth o'r farn ei bod yn amhriodol tynnu lluniau/fideos, bydd camerâu'n cael eu gwahardd o'r digwyddiad a bydd yr ysgol yn sicrhau na fydd y digwyddiad yn cael ei ffilmio oni bai bod person proffesiynol yn tynnu'r lluniau a'i fod wedi cael cliriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddai'r lluniau/fideos ar werth i rieni/gwarcheidwad.**

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

……………………………………. Pennaeth